

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

Dydd Mawrth, 18 Medi 2018

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

R.E. Evans a D.E. Williams

Yn bresennol fel cynrychiolwyr Awdurdod Cyfrifol:-

Mr E. Jones – Pen-swyddog Trwyddedu, Cyngor Sir Caerfyrddin

Mr M. Price – Heddlu Dyfed-Powys

Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:

R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

A. Rees, Swyddog Trwyddedu

M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd

Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 10.00 am - 10.10 am

1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. CAIS I AMRYWIO TRWYDDED SAFLE - TAFARN Y PELICAN, STRYD Y SYCAMORWYDDEN, CASTELL NEWYDD EMLYN.

Cyfeiriodd y Pen-swyddog Trwyddedu at y cais gan Mr Cefin Llewelyn Evans am Amrywio Trwydded Safle ar gyfer Tafarn y Pelican, Stryd y Sycamorwydden, Castellnewydd Emlyn a dywedodd wrth yr Is-bwyllgor nad oedd yr ymgeisydd na'r ddau aelod o'r cyhoedd a oedd wedi cyflwyno gwrthwynebiadau wedi rhoi'r pum niwrnod o rybudd sydd ei angen eu bod am fod yn bresennol yn y gwrandawriad er bod pob un wedi mynegi dymuniad i wneud hynny. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol y gallai'r Is-bwyllgor naill ai ystyried a phenderfynu ar y cais yn absenoldeb y partïon dan sylw, er nad oedd yn argymhell hyn gan y gallai unrhyw benderfyniad gael ei herio gan unrhyw barti anfodlon, neu gallai ohirio ystyried y cais tan gyfarfod o'r Is-bwyllgor yn y dyfodol er mwyn i'r ymgeisydd a'r gwrthwynebwyr fod yn bresennol a chyflwyno sylwadau ynghylch y cais.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y cais am Amrywio Trwydded Safle Tafarn y Pelican, Stryd y Sycamorwydden, Castellnewydd Emlyn tan gyfarfod arall o'r Is-bwyllgor Trwyddedu.

CADEIRYDD

DYDDIAD